



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu terfynol

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a
bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cyngor Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor)

Rhif achos: CS114

Dyddiad: 21/12/2022



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Gymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuson o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Cydymffurfiaeth â safonau 91, 92 a 93. Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad	9
	Hysbysiad penderfynu	19

1 Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 08/12/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.
- 1.2 Mae'r gŵyn yn honni na wnaeth y Cyngor ystyried y Gymraeg yn ddigonol wrth ymgynghori ar gynnig i ad-drefnu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn nhref Pontardawe.

Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.3 Ysgrifennodd fy swyddogion at y Cyngor ar 10/01/2022 er mwyn cadarnhau ai'r Cyngor oedd yn gyfrifol am y mater y cwynwyd amdano.
- 1.4 Derbyniais ymateb gan y Cyngor ar 10/01/2022 yn cadarnhau cyfrifoldeb am y mater, ac yn nodi ei fod wedi ystyried y Gymraeg drwy gydol y broses o wneud penderfyniad.

Safonau perthnasol

- 1.5 Mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Penderfyniad i ymchwilio

- 1.6 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau a nodwyd. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor ar 01/02/2022.
- 1.7 Rhoddais hysbysiad o gylch gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i'r Cyngor ar 14/03/2022. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

- 2.1 Ar 14/03/2022, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i'r Cyngor. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

Gwybodaeth a dogfennau

Mae'r gŵyn hon yn ymwneud ag ymgynghoriad diweddar gan y Cyngor yn cynnig ad-drefnu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn nhref Pontardawe.

1. Esboniwch sut yr oedd y ddogfen ymgynghori sy'n ymwneud â'r penderfyniad polisi dan sylw wedi ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheiny'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—
 - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Esboniwch sut yr oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw wedi ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar —
 - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
3. Esboniwch sut yr oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw wedi ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar —
 - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
4. Darparwch dystiolaeth o unrhyw ganllawiau neu drefniadau mae'r Cyngor wedi eu datblygu ar gyfer cydymffurfio â'r safonau llunio polisi wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori. A ddilynwyd y trefniadau hyn yn yr achos yma? Os ddim, eglurwch pam.
5. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
6. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

- 2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan y Cyngor ar 29/04/2022. Yn ogystal, darparwyd copïau o'r dogfennau canlynol:

- Dogfen Ymgynghori
- Adroddiad Ymgynghori
- Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a thystiolaeth gefnogol, Chwefror 2021
- Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a thystiolaeth gefnogol diwygiedig, Hydref 2021
- Cod Trefniadaeth Ysgolion
- Adroddiad Cabinet 21/12/2020.

2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

Y dystiolaeth a dderbyniwyd

- 2.4 Cyn ymateb i'r cwestiynau penodol, mae'r Cyngor yn darparu datganiadau cyffredinol. Yn gyntaf, mae'r Cyngor yn dadlau yn erbyn unrhyw awgrym bod methiant i gydymffurfio wedi bod wrth ystyried y Gymraeg yn yr ymgynghoriad ar ad-drefnu ysgolion Saesneg yn nhref Pontardawe.
- 2.5 Mae'r Cyngor yn darparu amserlen o'r broses fel a ganlyn:
- 21/10/2020: Cabinet y Cyngor yn penderfynu ymgynghori
 - 3/11/2020-19/01/2021: Cyfnod ymgynghori
 - 16/6/2021: Cabinet yn cyhoeddi cynigion statudol
 - 17/6/2021-14/7/2021: Cyfnod i wrthwynebu
 - 20/10/2021: Y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynigion statudol
- 2.6 Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i gyflwyno ei safbwynt ar y mater. Dywedai bod yr honiad yn yr achos yma yn anghywir am nifer o resymau:
- 2.7 Yn gyntaf, mae'r cyngor yn trafod yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (AEIG). Dywedai'r Cyngor bod yr AEIG wedi cael ei ystyried gan y Cabinet ar 16/6/2021, a bod hwn wedi ei ddiweddarau a'i ystyried gan y Cabinet ar 20/10/2021. Cafodd y ddau AEIG eu cyhoeddi cyn y cyfarfodydd Cabinet. Dywedai'r Cyngor ei fod wedi comisiynu'r AEIG yn unol ag amryw o ofynion statudol gan gynnwys y Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod); Deddf Cydraddoldeb 2010; Rheoliadau'r Gymraeg 2015; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn pwysleisio nad yw'r ffaith bod AEIG wedi ei roi i'r Cabinet yn awgrymu bod y Cyngor yn meddwl y byddai effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Nid yw chwaith yn awgrymu medd y Cyngor bod rhaid i'r Cyngor ymgynghori ar AEIG dan y Cod.
- 2.8 Yn ail, dywedai'r Cyngor bod copi o'r ddogfen ymgynghori wedi ei roi i swyddfa'r Comisiynydd ar 3/11/2020 yn gwahodd ymateb. Ni chafodd y Cyngor ymateb gennyf yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r Cyngor yn cydnabod fy sylwadau blaenorol yn yr ymchwiliad nad yw diffyg sylwadau gennyf yn golygu nad oes methiant i gydymffurfio, ond mae'r Cyngor o'r farn y byddai sylwadau neu bryderon

gennyf wedi bod yn fuddiol yn ystod yr ymgynghoriad gan fy mod yn ymgynghorai statudol dan y Cod. Yn yr un modd, dywedai'r Cyngor y byddai wedi bod yn fuddiol petai'r achwynydd wedi cwyno ar y pryd, yn hytrach na 14 mis yn ddiweddarach. Mae'r achwynydd wedi gadael i'r holl broses barhau a gorffen cyn tynnu sylw at y broblem. Mae'r Cyngor yn gofyn imi ystyried hyn fel rhan o'r dyfarniad.

- 2.9 Dywedai'r Cyngor bod yr heriau sydd i ad-drefnu ysgolion yn adnabyddus oherwydd y broses hir a'r effaith eang mae'n ei gael. Mae'r Cyngor yn cyfeirio at achos cyfreithiol all fod yn berthnasol yma sef R v Leeds City Council, ex parte N [1999] ELR 324 (sy'n cael ei atodi gan y Cyngor). Yn yr achos yma, dywedodd Schiemann LJ: *"Applicants in these school cases must realise that it is important to give early warning to what is going on so that people can endeavour to conclude matters soon, so that the whole education system in the city is not kept in suspense while legal proceedings drag on."* Dywedai'r Cyngor bod hyn yn berthnasol yma fel rhan o unrhyw benderfyniad i ystyried neu beidio i gŵyn.
- 2.10 Yn drydydd, dywedai'r Cyngor bod y Cod wedi ei ddilyn, ond nad yw'n ei wneud yn ofynnol i ymgynghori ar AEIG. Dywedai nad yw'n gorfod ei ddarparu fel dogfen ymgynghori, gan nad yw'r Cod yn gofyn hyn, nac unrhyw gyfraith gyffredin na statudol arall. Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i drafod y gofynion dan y Cod, a dweud gan nad yw'r ysgolion dan sylw yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, nad oes gofyniad i ymgynghori ar yr AEIG. Dywedai nad yw'r AEIG yn fath o ddogfen arbennig sy'n rhaid ymgynghori arno. Roedd y ffactorau oedd angen eu hystyried dan safonau'r Gymraeg wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ac wedi eu hystyried.
- 2.11 Yn olaf, dywedai'r Cyngor bod pob elfen o safonau 91-93 wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Cyfeiriai'r Cyngor at y ffaith bod y ddogfen yn gofyn i ymgynghorai oedd y cynnig am gael effeithiau positif neu andwyol ar ddefnydd y Gymraeg neu gyfleoedd i'w ddefnyddio. Mae'r Cyngor yn pwysleisio nad yw'r ffaith iddo ymgynghori ar y materion yn golygu ei fod yn credu y byddai'r Gymraeg yn cael ei effeithio yn negyddol. Cyfle ydoedd i ymgynghorai roi eu barn, ac felly mae'n dangos cydymffurfiaeth gyda'r safonau perthnasol.
- 2.12 Cyn ymateb i'r cwestiynau yn yr hysbysiad tystiolaeth, mae'r Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith bod adolygiad barnwrol ar ddechrau am fater tebyg i'r gŵyn yma. Mae'r Cyngor yn ymhelaethu ar honiadau'r adolygiad barnwrol, ac yn ychwanegu ei fod yn gwrthwynebu pob honiad.

Cwestiwn 1

- 2.13 Nesa, mae'r Cyngor yn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr hysbysiad tystiolaeth. Mae'r cwestiwn cyntaf yn gofyn sut mae'r ddogfen ymgynghori yn cydymffurfio gyda'r safonau ac yn ystyried a cheisio barn ar unrhyw effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.14 Ymateb y Cyngor yw bod y ddogfen ymgynghori yn dangos bod ystyriaeth wedi ei roi i effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. Gan ystyried y fersiwn Saesneg o'r ddogfen (mae'r rhifau tudalennau yn wahanol yn y fersiwn Gymraeg), mae'n cyfeirio at dudalen 36, ac yn dyfynnu brawddeg sy'n dweud bod asesiad effaith cam cyntaf wedi ei gynnal. Ar dudalen 37, mae adran yn ystyried yr effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n amlinellu'r effeithiau positif disgwylidig. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y niferoedd o staff sy'n mynd i weithio yn yr ysgol newydd, fyddai o fudd i'r disgyblion.

- 2.15 Dywedai'r Cyngor bod y ddogfen hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod yr ardal o sensitifrwydd ieithyddol, ac yn rhoi crynodeb o'r gwaith sydd wedi ei gynnal yn yr ysgolion Cymraeg cyfagos i gynyddu maint a gwella darpariaeth. Dywedai'r Cyngor bod yr adran yma yn dweud yn glir nad oes disgwyl i'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal leihau.
- 2.16 Dywedai'r Cyngor bod y ddogfen hefyd yn cynnwys adran Asesiad Effaith Integredig, sy'n nodi y gall y cynnig gael effaith posib ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a bydd mwy o dystiolaeth ar hyn yn cael ei ystyried yn ddiweddarach.
- 2.17 Mae'r Cyngor felly o'r farn ei fod yn glir bod ystyriaeth wedi ei roi ar effeithiau posib, boed yn bositif neu'n andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- 2.18 Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i nodi ei fod wedi ceisio barn ar yr un materion, a hynny drwy ofyn cwestiynau penodol am y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori.
- 2.19 Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen unwaith eto i drafod y Cod, ac yn dweud bod y wybodaeth yn y ddogfen yn unol â'r Cod, ac yn unol â rheolau penodol ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae'r Cyngor yn nodi bod y broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn wahanol i brosesau eraill, gan ei fod yn dilyn rheolau penodol y Cod, ac mae'r Cyngor yn disgrifio'r rheolau hynny yn fras. Dywedai'r Cyngor bod y dogfennau ac adroddiadau perthnasol yn mynd at sylw'r aelodau etholedig ar dri achlysur gwahanol. Gall y broses gymryd 9 mis a mwy er mwyn casglu barn a chreu adroddiadau i'w hystyried.
- 2.20 Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i nodi ei fod wedi ad-drefnu dros 30 o ysgolion ar draws y sir, a bod y prosesau cysylltiedig wedi eu sefydlu a'u profi yn dda.

Cwestiwn 2

- 2.21 Ar gyfer cwestiwn dau, gofynnais i'r Cyngor sut mae'r ddogfen ymgynghori yn cydymffurfio gyda'r safonau drwy ystyried a cheisio barn ar sut all y cynnig gael effaith mwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- 2.22 Mae'r Cyngor eto yn cyfeirio at yr adran "Beth yw'r effaith ar yr iaith Gymraeg" sydd yn ôl y Cyngor yn dangos bod effeithiau posib wedi eu hystyried. Mae'n cyfeirio at dudalen 30 y ddogfen (35 ar y ddogfen Gymraeg) sy'n nodi y bydd cyfuno'r tair ysgol gynradd yn golygu y bydd mwy o staff Cymraeg ar y safle newydd ac yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogi disgyblion a staff i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor yn nodi bod y ddogfen yn ei wneud yn glir ei fod yn ceisio barn ar y cynnig, ac y bydd adroddiad yn cael ei chyhoeddi ar sail y canlyniadau. Mae'n cyfeirio eto at y cwestiynau penodol sy'n ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg.
- 2.23 Mae'r Cyngor yn cyfeirio eto at y ffaith bod AEIG llawnach wedi ei greu oedd yn manylu ar farn yr ymgynghorai a gwybodaeth bellach. Cafodd yr Asesiad ei gyhoeddi gan roi cyfle i ymgynghorai wneud sylwadau pellach.

Cwestiwn 3

- 2.24 Mae'r drydydd cwestiwn yn gofyn sut mae'r ddogfen ymgynghori yn cydymffurfio gyda'r safonau wrth ystyried a cheisio barn ar sut all y cynnig gael effeithiau llai

andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

- 2.25 Mae'r Cyngor yn ail adrodd ei fod wedi cynnwys adran ar effeithiau ar y Gymraeg sy'n dangos bod ystyriaeth wedi ei roi i effeithiau negyddol. Mae'n cyfeirio at dudalen 38 (36 ar y ddogfen Gymraeg), sy'n nodi bod yr ardal dan sylw yn ardal ieithyddol arwyddocaol, ac mae'n adnabod beth mae eisoes wedi ei wneud i gynyddu maint ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac i wella darpariaeth. Dywedai'r Cyngor bod y ddogfen yn ei wneud yn glir nad yw'n disgwyl i'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal leihau, ond y bydd AEIG yn cael ei gwblhau ar ôl yr ymgynghoriad.
- 2.26 Dywedai'r Cyngor bod adroddiad ymgynghori wedi ei gyhoeddi oedd yn ystyried yr holl farn ar y cynnig, ac mae'n cyfeirio at dudalen 36 yr adroddiad sy'n ystyried sut i leihau effeithiau negyddol.

Cwestiwn 4

- 2.27 Ar gyfer cwestiwn pedwar, gofynnais i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth o unrhyw arweiniad mewnol sydd ganddo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi dan sylw, ac a wnaeth yr arweiniad hwn gael ei ddilyn yn yr achos yma.
- 2.28 Ymatebodd drwy gyfeirio at ei Arweiniad Asesiad Effaith Integredig, sy'n cynnwys y canlynol (Roedd ymateb y Cyngor yn Saesneg, felly mae'r isod yn gyfieithiad o hwnnw):

“Safonau'r Iaith Gymraeg

Pan yn datblygu'r fenter byddwch wedi cymryd i ystyriaeth y gofynion o fewn Safonau'r Gymraeg. Byddwch wedi ystyried:

- *Effeithiau'r cynnig ar:*
 - *Gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg*
 - *Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.*
- *Sut all y fenter gael ei ddatblygu neu ei adolygu fel ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar:*
 - *Gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg*
 - *Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal*
- *Sut all y fenter gael ei ddatblygu neu ei addasu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar:*
 - *Gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg*
 - *Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn hafal*

*Yn ychwanegol, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y fenter mae'n rhaid ichi **ystyried a cheisio barn** ar yr uchod i gyd.”*

Mae'r Cyngor hefyd yn cyfeirio at Arweiniad Staff sy'n dweud y canlynol:

“Ymgynghoriadau

- *Pan yn cyhoeddi dogfen ymgynghori, sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ymgynghoriad ystyried a cheisio barn ar yr effeithiau all y penderfyniad dan ystyriaeth ei gael ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.*

- *Rhaid i'r ddogfen ymgynghori hefyd ystyried a cheisio barn ar sut all y polisi dan ystyriaeth gael ei lunio neu ei addasu i sicrhau fod y penderfyniad polisi yn cael effaith positif a ddim andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.*
- *Rhaid sicrhau bod y ddogfen ymgynghori yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal."*

Cwestiwn 5

2.29 Ni ddarparodd y Cyngor unrhyw wybodaeth ychwanegol fel ymateb i gwestiwn 5, ond wedi i mi rannu drafft o'r penderfyniad hwn gyda'r Cyngor, fe dderbyniais lythyr dyddiedig Awst 3ydd 2022 oddi wrth Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ("Llythyr Cyfreithiol y Cyngor"), yn gosod nifer o ddadleuon gerbron, ac rwyf wedi ystyried y dadleuon hynny wrth wneud y penderfyniad hwn. Lle bo hynny'n briodol, rwyf wedi crybwyll rhai o'r dadleuon hynny yn yr adroddiad hwn.

Cwestiwn 6

2.30 Yn olaf, gofynnais i'r Cyngor ddarparu copi o unrhyw ddogfen neu arweiniad imi eu hystyried yn yr achos yma. Darparodd y Cyngor y canlynol:

- Adroddiad i'r Cyngor 21/10/2020
- Cod Trefniadaeth Ysgolion
- Dogfen Ymgynghori
- Ymateb i'r ddogfen ymgynghori
- AEIG Mehefin 2021
- AEIG Hydref 2021

2.31 I gloi ymateb y Cyngor, mae'n fy ngwahodd i ystyried a oes wir sail imi ymchwilio i'r achos, unai oherwydd bod adolygiad barnwrol ar fynd, neu oherwydd nad oes seiliau ar gyfer ymchwiliad gan fod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn.

3 Cydymffurfiaeth â safonau 91, 92 a 93. Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safonau

- 3.1 Dyma'r safonau fel y maent yn ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dehongliadau

- 3.2 Mae Rhan 2, adran 3 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg 2015 yn nodi:

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un ai ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Gofynion y safon

- 3.3 Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi gan gorff yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn ei gael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio.
- 3.4 Rhaid cynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt.

- 3.5 Dylai corff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, fel y byddai'r corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 3.6 Mae'r achos yma yn ymwneud â chynnig gan y Cyngor i ad-drefnu ysgolion cynradd Saesneg yn nhref Pontardawe. Mae'r cynnig yn cynnwys adeiladu adeilad newydd ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg rhwng 3-11, a hynny gan gau ysgolion cynradd Alltwen, Godre'r Graig, a Llangiwig.
- 3.7 Mae'r achwynydd yn honni na wnaeth y Cyngor ystyried y Gymraeg yn ddigonol wrth ymgynghori ar y cynnig uchod. Y safonau perthnasol felly yw safonau 91, 92, a 93, sy'n ymwneud â dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi.
- 3.8 Rhaid pwysleisio mai'r unig fater sydd dan ystyriaeth yn yr ymchwiliad yma yw cydymffurfiaeth y ddogfen ymgynghori ei hun gyda safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau yn benodol iawn mai'r ddogfen ymgynghori sydd angen cydymffurfio, ac felly nid yw unrhyw ddogfen arall a grëwyd gan y Cyngor yn ystod y broses o wneud penderfyniad yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn.
- 3.9 Mae'r Cyngor yn cyfeirio yn aml yn ei ymateb at y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r Aseiad Effaith Iaith Gymraeg. Rwy'n awyddus i bwysleisio bod y Cod a'r safonau yn gyfundrefnau cyfreithiol ar wahân, ac nid yw cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Cod yn berthnasol i'r ymchwiliad yma, nac unrhyw ymchwiliad arall gennyf i. Mae casgliad y Llys Apêl yn *Driver v Rhondda Cynon Taf* yn cydnabod hyn.¹ Mae'r safonau dan sylw yn benodol am y ddogfen ymgynghori, ac felly dim ond y ddogfen honno sydd dan ystyriaeth.
- 3.10 Mae'r Cyngor hefyd yn nodi yn ei dystiolaeth na wnes i ymateb i'r ddogfen ymgynghori, na gwneud sylwadau ar unrhyw bwynt yn ystod yr ymgynghoriad. Pwysleisiaf nad wyf fel mater o drefn yn gwneud sylwadau ar gydymffurfiaeth ymgynghoriadau addysg lleol gyda'r safonau, am resymau megis nad oes gen i'r adnoddau na'r arbenigedd lleol i ymateb yn ystyrlon i bob ymgynghoriad addysg lleol. Nid yw diffyg ymateb gennyf chwaith yn arwydd bod y ddogfen ymgynghori yn cydymffurfio'n llawn. Pe byddwn yn penderfynu ymateb i ymgynghoriad addysg lleol, yna ymateb yn rhinwedd fy ngwaith polisi fyddwn i, nid rhannu barn ynghylch p'un ai yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. Y ffordd fwyaf effeithiol i mi ddylanwadu ar benderfyniadau lleol yw drwy ganolbwyntio ar faterion polisi cenedlaethol a chynlluniau sirol megis y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- 3.11 Er mwyn i'r ddogfen ymgynghori gydymffurfio, mae'n rhaid bodloni dau ofyniad penodol o'r safonau. Yn gyntaf, rhaid 'ystyried' yr effeithiau posib; ac yn ail, rhaid 'ceisio barn' ynghylch unrhyw effeithiau posib. Dau beth ar wahân yw'r rhain. Yn Llythyr Cyfreithiol y Cyngor, cyflwynwyd y ddadl hon: "Trwy ganfod bod y ddogfen wedi ceisio barn ar y materion hyn, mae'n dilyn o reidrwydd bod y ddogfen wedi'u hystyried, gan na fuasai deunydd i geisio barn arno fel arall." Nid wyf yn cytuno â'r dehongliad hwn o'r safonau dan sylw. Mae angen i ddogfen wneud mwy na dim

¹ [Driver -v- Rhondda Cynon Taf County Borough Council \(welshlanguagecommissioner.wales\)](http://www.welshlanguagecommissioner.wales) paragraff 66

ond ceisio barn er mwyn cydymffurfio â nhw. Mae angen i'r ddogfen **ystyried** y materion hefyd. Fel arall, byddai'r gair 'ystyried' yn segur.

'Ceisio Barn'

- 3.12 Ar gyfer yr elfen yma, mae'r Cyngor wedi gofyn cwestiynau penodol am y Gymraeg yn yr adran dan y teitl 'Effeithiau posib ar y Gymraeg' (tudalen 43). Gweler isod y cwestiynau sy'n cael eu gofyn gan y Cyngor:

Effeithiau posib ar y Gymraeg

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cadarnhaol Negyddol Niwtral

Rhowch fanylion yr effaith a pha gamau y gallem eu hystyried i leihau neu ddileu hyn a gwella effeithiau cadarnhaol.

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal?

Ydw Nac ydw Niwtral

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich sylwadau

- 3.13 Mae paragraff 5.1.14. o'r Cod Ymarfer yn datgan – "Rhaid i gorff gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt".
- 3.14 Rwy'n ystyried bod y cwestiwn cyntaf uchod yn bodloni gofyniad cyntaf y tair safon, sef i geisio barn ar effaith y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cyfle yma i'r cyhoedd wneud cynigion ar sut i leihau unrhyw effaith andwyol, a gwella unrhyw effaith positif.
- 3.15 Mae'r ail gwestiwn wedyn yn mynd i'r afael â'r ail ofyniad dan y safonau, sef i geisio barn ar effaith y cynnig ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Trwy ofyn a fydd y cynnig yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, mae'r Cyngor mewn gwirionedd yn gofyn a fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg os yw'n bwrw ymlaen gyda'r cynnig.
- 3.16 Ystyriaf felly bod y Cyngor wedi gwneud digon i gydymffurfio gyda'r elfen o geisio barn o fewn y tair safon, gan fod cwestiynau penodol wedi eu gofyn am effaith y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

'Ystyried'

- 3.17 Mae cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r ail elfen o **ystyried** yr effeithiau ar y Gymraeg o fewn y ddogfen ymgynghori ychydig yn fwy aneglur. Rwy'n dehongli'r gofyniad yma i feddwl bod rhaid i'r ddogfen ymgynghori nodi, amlinellu ac ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg ar gyfer y cynnig dan sylw (safon 91), ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael fyddai'n ei alluogi i wneud y penderfyniad mewn ffordd fyddai'n cael effeithiau mwy positif (safon 92) a llai andwyol (safon 93) ar y Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor felly gynnwys gwybodaeth o fewn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut bydd y penderfyniad polisi yn effeithio ar y ddau beth a nodir yn y safonau, sef (1) cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg a (2) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.18 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau yma, rwyf o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y ddau beth hyn (a sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth), yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd neu gymunedau yr effeithir arnynt gan y penderfyniad polisi. Mewn achos o ad-drefnu ysgolion, mae hynny'n cynnwys ystyried felly nid yn unig yr effaith yn yr ysgol(ion) sydd dan sylw, ond hefyd yr effaith ar yr ardal leol a'r gymuned. Byddai cyfyngu'r ystyriaeth i'r ysgolion dan sylw yn unig yn gosod ffiniau artiffisial ar y safonau ac yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 3.19 Mae'r Cyngor o'r farn nad oes methiant i gydymffurfio wedi bod wrth ymgynghori ar y cynnig, ac yn nodi bod pob elfen o safonau 91-93 wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Safon 91

- 3.20 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib all y cynnig ei gael ar y Gymraeg.
- 3.21 Dadleuai'r Cyngor ei fod yn cydymffurfio â safon 91 oherwydd y canlynol:
- Mae adran dan y teitl 'Beth yw'r effaith ar y Gymraeg' sy'n amlinellu effeithiau positif disgwylidig ar y disgyblion yn yr ysgol newydd drwy gael cynnydd yn y nifer o staff sy'n siaradwyr Cymraeg. Dadleuai'r Cyngor bod cysylltiad clir i'r targed o fewn y CSCA yma.
 - Mae'r ardal yn un o arwyddocâd ieithyddol ac mae'r ddogfen ymgynghori yn crynhoi'r gwaith sydd wedi ei gwblhau yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol i gynyddu cynhwysedd a gwella darpariaeth (Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe, Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws, ac Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur).
 - Mae'r adran yma yn datgan yn glir na fydd darpariaeth Gymraeg yn yr ardal yn cael ei leihau.
 - Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys adran dan y teitl 'Asesiad Effaith Integredig' sy'n nodi y gallai fod effeithiau ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

- 3.22 Mae'r Cyngor o'r farn felly ei fod yn glir bod ystyriaeth wedi ei roi i'r effeithiau posib ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y ddogfen ymgynghori.
- 3.23 Rwy'n cydnabod bod cyfeiriad yma at un effaith bositif bosib y gall y cynnig ei gael ar y Gymraeg, sef yr effaith ar y disgyblion yn yr ysgol newydd.
- 3.24 Wedi dweud hynny, er bod y Cyngor yn datgan bod yr ardal o sensitifrwydd ieithyddol, nid yw'n nodi na thrafod unrhyw effaith andwyol neu gadarnhaol bosib y gall y cynnig ei gael ar y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgolion dan ystyriaeth. Er enghraifft, nid ystyrir effaith posib y cynnig (1) ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion cynradd Cymraeg yr ardal (nodir, heb esboniad, nad oedd disgwyl i'r cynnig leihau'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal ond nid yw hynny'n ddigon i fodloni'r safon); (2) ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned leol ehangach yn y tymor byr a'r tymor hir; (3) ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (e.e. o ran safon cyfleusterau addysgol).
- 3.25 Gan ymateb i farn y Cyngor ei fod wedi gwneud cysylltiad clir i'r targedau o fewn y CSCA yn y ddogfen ymgynghori, rwy'n anghytuno. Dim ond un frawddeg sydd yn y ddogfen ymgynghori yn nodi bod CSCA y Cyngor yn "manylyu ar sut mae'n bwriadu cefnogi addysg Gymraeg mewn ysgolion a'i datblygu ymhellach". Does dim cysylltiad yn cael ei wneud i unrhyw un o'r targedau, nac ystyriaeth bellach i sut all y cynnig effeithio'r targedau hynny, e.e. sut mae'r cynnig yn mynd i helpu'r Cyngor i sicrhau bod mwy o blant oed cynradd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, neu sut mae'r cynnig am effeithio'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol newydd.
- 3.26 Mae brawddeg yn adran 'Asesiad Effaith Integredig' y ddogfen ymgynghori yn datgan "gall y cynnig hefyd effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg". Does dim eglurhad pellach o'r effeithiau posib yma, boed yn bositif neu'n andwyol.

Canfyddiadau

- 3.27 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib y cynnig (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.28 Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg o ran cyfleoedd i'w defnyddio ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ond mae'n cyfyngu unrhyw **ystyriaeth** o'r effeithiau hynny i'r effaith ar gyfleoedd i'w defnyddio oddi mewn i'r ysgolion dan sylw yn yr ymgynghoriad. Does dim ystyriaeth o effaith bosib y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ehangach nac o gwbl ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.29 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 91

- 3.30 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 91 gan nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried yr effeithiau y gall y penderfyniad polisi dan sylw ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgolion dan sylw, nac ystyried yr effeithiau ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

- 3.31 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.32 Fel rwyf eisoes wedi nodi yn yr adroddiad, er mwyn cydymffurfio gyda'r safon yma, rwyf o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan sylw, yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd neu gymunedau yr effeithir arnynt gan y penderfyniad polisi. Mewn achos o ad-drefnu ysgolion, mae hynny'n cynnwys ystyried felly nid yn unig sut i gael effeithiau positif, neu fwy positif, yn yr ysgol(ion) sydd dan sylw, ond hefyd gwneud hynny yn yr ardal leol a'r gymuned.
- 3.33 Dadleuai'r Cyngor ei fod yn cydymffurfio â safon 92 oherwydd y canlynol:
- Mae'r Cyngor yn cyfeirio eto yn ei dystiolaeth at yr effaith positif o gyfuno athrawon Cymraeg o'r tri safle i un ysgol, a'r datblygiad ieithyddol i'r disgyblion a'r plant fydd yn deillio o hynny.
 - Mae'r adroddiad ymgynghori wedi ystyried yr holl farn ar y cynnig, gan ystyried yr effeithiau posib ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yr asesiad effaith hefyd yn cynnwys mwy o fanylder am effeithiau positif posib, a rhoddwyd cyfle eto i'r cyhoedd wneud sylwadau.
- 3.34 Yn gyntaf, nodaf eto mai'r ddogfen ymgynghori yn unig sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, ac felly nid yw deunydd mewn dogfennau eraill y tu allan i hynny ac sydd heb eu crybwyll yn y ddogfen ymgynghori yn effeithio cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r safonau dan sylw.
- 3.35 Er bod un effaith positif wedi ei chrybwyll yn y ddogfen ymgynghori, nid oes ystyriaeth o sut y gellir llunio neu addasu'r polisi fel ei fod yn cael effeithiau positif, neu fwy positif. Yn ogystal â hynny, ni chrybwyllir o gwbl effeithiau positif y tu hwnt i'r ysgolion dan sylw nac o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Tra bo nifer o opsiynau yn cael eu hystyried o ran effaith bosib y polisi ar faterion eraill, ni wneir hynny o ran yr effeithiau posib ar y Gymraeg.

Canfyddiadau

- 3.36 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.37 Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ond nid yw'n llwyddo i ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg.
- 3.38 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 92.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 92

3.39 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 92 gan nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

- 3.40 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, rhaid i'r Cyngor geisio barn ac ystyried yn y ddogfen ymgynghori sut ellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.41 Yn gyntaf, nodaf eto mai'r ddogfen ymgynghori yn unig sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, ac felly nid yw deunydd mewn dogfennau eraill y tu allan i hynny ac sydd heb eu crybwyll yn y ddogfen ymgynghori yn effeithio cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r safon dan sylw.
- 3.42 Fel rwyf eisoes wedi nodi yn yr adroddiad, er mwyn cydymffurfio gyda'r safon yma, rwyf o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth, yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd neu gymunedau yr effeithir arnynt gan y penderfyniad polisi. Mewn achos o ad-drefnu ysgolion, mae hynny'n cynnwys ystyried felly nid yn unig atal neu leihau effeithiau andwyol yn yr ysgol(ion) sydd dan sylw, ond hefyd gwneud hynny yn yr ardal leol a'r gymuned.
- 3.43 Dadleua'r Cyngor ei fod yn cydymffurfio â safon 93 oherwydd y canlynol:
- Mae'r Cyngor yn cyfeirio eto at yr adran 'Beth yw'r effaith ar y Gymraeg' sydd yn ôl y Cyngor yn dangos ei fod wedi ystyried effeithiau andwyol y cynnig ar y Gymraeg. Mae'n cyfeirio at y datganiad bod yr ardal dan sylw o arwyddocâd ieithyddol. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn adnabod gweithredoedd sydd wedi eu cwblhau er mwyn cynyddu maint yr ysgolion Cymraeg cyfagos ac i wella darpariaeth addysg Gymraeg yno.
 - Mae'r Cyngor yn nodi bod y ddogfen yn datgan nad yw'n disgwyl gweld dirywiad yn natblygiad y Gymraeg yn yr ardal, ac y bydd AEIG yn cael ei gwblhau ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.
 - Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori oedd yn ystyried yr effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at opsiynau lliniarol i leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg, ac yn argymhell bod y rhain yn cael eu gweithredu.
- 3.44 Rwy'n cydnabod bod y Cyngor yn datgan faint o wariant sydd wedi bod yn yr ysgolion Cymraeg lleol, ond nid yw hyn yn gyfystyr ag ystyriaeth o sut i lunio neu addasu'r polisi fel ei fod yn atal neu leihau effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid oes ystyriaeth o'r fath yn y ddogfen ymgynghori. Tra bo nifer o opsiynau yn cael eu crybwyll o ran effaith bosibl y polisi ar faterion eraill, ni wneir hynny o ran yr effeithiau bosibl ar y Gymraeg. Nodaf, o ran yr ail bwynt uchod, tra bo'r ddogfen

ymgyngori yn datgan nad oedd disgwyl i'r cynnig leihau'r ddarpariaeth Gymraeg (h.y. addysgol) yn yr ardal, nid yw'n crybwyll 'dirywiad yn natblygiad y Gymraeg'.

Canfyddiadau

- 3.45 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.46 Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ond nid yw'n llwyddo i ystyried sut ellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.47 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 93.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 93

- 3.48 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 93 gan nad yw'r ddogfen ymgynghori wedi ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyffredinol

- 3.49 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau hyn, mae angen ymdrech gydwybodol i ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg. Yn hytrach, trafodaeth arwynebol o'r Gymraeg sydd yn y ddogfen ymgynghori. Mae'n ymddangos mewn gwirionedd mai llawer o ddatganiadau ffeithiol am y Gymraeg sydd yma. Gan ystyried fod y polisi arfaethedig mewn ardal y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ei bod yn ardal 'ieithyddol arwyddocaol', byddwn wedi disgwyl gweld trafodaeth wirioneddol o effaith y cynnig ar y Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r ysgol newydd arfaethedig.
- 3.50 Gall penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â darpariaeth addysg gael effeithiau cymhleth ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned; ar benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg; ac ar agwedd tuag at y Gymraeg yn lleol. Gall y rhain fod yn gymysgedd o effeithiau positif, andwyol a niwtral. Nid wyf yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud ymdrech ddigonol yn yr achos yma i adnabod yn y ddogfen ymgynghori y cymysgedd o effeithiau posib all y cynnig ei gael ar y Gymraeg.
- 3.51 Yn ei dystiolaeth, mae'r Cyngor yn cynnwys y canllaw mewnol y mae'n ei ddefnyddio wrth ddatblygu dogfennau ymgynghori. Mae'r canllaw yma yn ymddangos fel ei fod yn rhestru'r safonau yn unig. Nid oes unrhyw esboniad pellach ynglŷn â sut i gydymffurfio gyda hwy, ac fe fyddai cryfhau'r canllaw mewnol yma yn gymorth i sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol.
- 3.52 Nodaf fod adroddiad ymgynghori'r Cyngor a'r AEIG yn ystyried y Gymraeg yn ehangach na'r ddogfen ymgynghori, ac mae ystyriaethau pellach o'r effeithiau posib. Ond nid yw hyn yn berthnasol i'r ymchwiliad yma. Mae'n bwysig mai'r Cyngor ei hun sy'n adnabod prif effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg, a'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori ynghyd ag opsiynau lliniarol fel bod y cyhoedd

yn gallu gwneud sylwadau gwybodus arnynt. Nid cyfrifoldeb y cyhoedd ydyw i gyflwyno effeithiau posib y cynnig i'r Cyngor wrth ymateb i'r ymgynghoriad, achos fe ddylai'r Cyngor ei hun fod wedi eu hadnabod yn y ddogfen ymgynghori, fel y gall y cyhoedd roi barn arnynt wedyn.

- 3.53 Os nad yw dogfen ymgynghori yn trin a thrafod effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg yn lleol, yna nid oes modd cynnal sgwrs a thrafodaeth wirioneddol agored gyda'r cyhoedd ynghylch y cynnig. Hynny yw, hyd yn oed os yw'r Cyngor yn gofyn cwestiynau penodol ynghylch y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori, os nad yw'r wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd yn y ddogfen, nid yw'r cyhoedd yn gallu gwneud sylwadau llawn ar y cynnig.

Gweithredu pellach

- 3.54 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 3.55 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92, a 93, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 3.56 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r canllaw mewnol, gan ychwanegu ato fel bod mwy o gynnwys yn hytrach na dim ond rhestr o'r safonau llunio polisi, fel bod gan staff fwy o gyfarwyddiadau wrth baratoi dogfen ymgynghori. Rhaid i'r canllaw adlewyrchu bod dwy elfen angen eu bodloni ar gyfer y tair safon, sef ceisio barn, ac ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg. Diben y cam gorfodi yma yw i sicrhau bod canllaw clir ar gael i staff sy'n gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori sy'n egluro gofynion y safonau, ac fel bod arweiniad clir i droi ato yn y dyfodol.
2. Ar gyfer yr elfen ystyried, rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw mewnol bod angen ystyried yr effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid hefyd ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif, ac fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Diben y cam gorfodi yma yw cryfhau'r canllaw mewnol fel bod gofynion y safonau yn glir, ac fel bod y Cyngor yn cydymffurfio â hwy yn y dyfodol.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'r staff sy'n llunio ei ddogfennau ymgynghori ar benderfyniadau polisi sy'n ymwneud ag ad-drefnu addysg yn ardal y Cyngor. Rhaid codi ymwybyddiaeth staff o'r canllaw diwygiedig yn yr hyfforddiant yma, a sicrhau eu bod yn ymwysbodol o holl ofynion y safonau 91-

93. Diben y cam gorfodi hwn yw sicrhau bod staff y Cyngor y cyfeirir atynt yn ymwybodol o ofynion safonau 91 i 93, ac y byddant, wrth lunio dogfennau ymgynghori ar ad-drefnu addysg yn y dyfodol, yn gyfarwydd â gofynion y safonau ac felly'n llai tebygol o fethu cydymffurfio â'r safonau hyn yn y dyfodol.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio gyda safonau 91, 92 a 93 drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff perthnasol o'r methiant drwy gyhoeddi'r adroddiad ar ei fewnrwyd staff.
6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r gofyniad yma i roi cyhoeddusrwydd.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Rhif achos: CS114

Dyddiad: 21/12/2022

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 91.

Sail fy nyfarniad yw nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried yn ddigonol yr effeithiau all y penderfyniad polisi dan sylw eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 92.

Sail fy nyfarniad yw nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried yn ddigonol sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 93.

Sail fy nyfarniad yw nad yw'r ddogfen ymgynghori wedi ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar y Gymraeg.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r canllaw mewnol, gan ychwanegu ato fel bod mwy o gynnwys yn hytrach na dim ond rhestr o'r safonau llunio polisi, fel bod gan staff fwy o gyfarwyddiadau wrth fynd ati i lunio dogfen ymgynghori. Rhaid i'r canllaw adlewyrchu bod dwy elfen angen eu bodloni ar gyfer y tair safon, sef ceisio barn, ac ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg. Diben y cam gorfodi yma yw sicrhau bod canllaw clir ar gael i staff sy'n gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori sy'n egluro gofynion y safonau, ac fel bod arweiniad clir i droi ato yn y dyfodol.
2. Ar gyfer yr elfen ystyried, rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw mewnol bod angen ystyried yr effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid hefyd ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif, ac fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Diben y cam gorfodi yma yw cryfhau'r canllaw mewnol fel bod gofynion y safonau yn glir, ac fel bod y Cyngor yn cydymffurfio â hwy yn y dyfodol.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'r staff sy'n llunio ei ddogfennau ymgynghori ar benderfyniadau polisi sy'n ymwneud ag ad-drefnu addysg yn ardal y Cyngor. Rhaid codi ymwybyddiaeth staff o'r canllaw diwygiedig yn yr hyfforddiant

yma, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau 91-93. Diben y cam gorfodi hwn yw sicrhau bod staff y Cyngor y cyfeirir atynt yn ymwybodol o ofynion safonau 91 i 93, ac y byddant, wrth lunio dogfennau ymgynghori ar ad-drefnu addysg yn y dyfodol, yn gyfarwydd â gofynion y safonau ac felly'n llai tebygol o fethu cydymffurfio â'r safonau hyn yn y dyfodol.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio gyda safonau 91, 92 a 93 drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff perthnasol o'r methiant drwy gyhoeddi'r adroddiad ar ei fewnwyd staff.
6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r gofyniad yma i roi cyhoeddusrwydd.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant, gall y Cyngor apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaaedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynodd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio.